# Cyngor Cymuned Llanegryn Community Council

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
**E bost: huwjones792@btinternet.com Ffôn: 07974795778**

20fed Ionawr 2025

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED LLANEGRYN Nos Lun y 27ain o Ionawr 2025 am 7.30pm** yn y Neuadd, Llanegryn.

Cysyllwch gyda mi os oes unrhyw ymholiad

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

…………………………………………………………………………………………

AGENDA

1.Gair o groeso, a sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

Derbyn ymddiheuriadau a gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Tachwedd y 18fed – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Neuadd Llanegryn, nodi'r sefyllfa ddiweddaraf a'r gohebiaeth i law

- Deunydd Cyngor Cymuned yn y ffeiliau yn y Neuadd – e-bost Kate Cope 3.12.24
- Cyfrifon y Neuadd – e-bost Heather Black 15.12.24
- Yswiriant ymddiriedolwyr y Neuadd

b) Gardd Goffa – nodi'r diweddaraf.

c) Llwybr sy'n arwain at y cae chwarae – nodi'r diweddaraf.

d) Ffordd ddi-ddosbarth o Roslefain i gyfeiriad y Ffordd Ddu – nodi'r diweddaraf.

e) Praesept y Cyngor – *cadarnhad wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd*

5**. Materion Cynllunio**

6.**Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon 2023-24 – wedi eu cwbwlhau, ac mae copi o'r hysbysiad a'r Ffurflen Flynyddol wedi eu rhoi ar yr hysbysfwrdd a'r wefan.

b) Anfonebau i'w talu.

- HG Web designs – cynnal a chadw y wefan
- Anfoneb Jones & Jones am gynnal a chadw llwybrau yn flynyddol a darparu 2 goeden Nadolig
- Cydnabyddiaeth trydydd chwarter y Clerc a thaliad HMRC

c) Ystyried unrhyw geisiadau am arian

- Ambiwlans Awyr Cymru – derbyn diweddariad
- Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn

7**.Gohebiaeth**

a) Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru

b) Cynhadledd Un Llais Cymru/SLCC  - 20fed Tachwedd.

c) Cyfeiriad e-bost Cyngor Llanegryn

8. **Unrhyw fater arall**